# Hyrwyddo Pysgodfeydd Cymru – dull partneriaeth

**Cefndir**

Mae genweirio yn weithgaredd hamdden pwysig yng Nghymru, gyda thua 45,000 o drwyddedau'n cael eu gwerthu bob blwyddyn i 40,000 o enweirwyr unigol. Yn ogystal, mae'r doreth a'r amrywiaeth o gyfleoedd i enweirio mewn dŵr croyw neu yn y môr yng Nghymru yn parhau i fod yn ddeniadol i ymwelwyr. Gyda'i gilydd, amcangyfrifwyd bod gwerth genweirio yn y môr ac mewn dŵr croyw i economi Cymru yw tua £150 miliwn (Radford et al. 2007 - Economic Evaluation of Inland Fisheries; Nautilus Consultants, 2000 - Study into inland and sea fisheries in Wales) gyda chofnodion yn dangos bod ymwelwyr wedi treulio tua 450,000 o ddiwrnodau'n genweirio (i gyd mewn dŵr croyw) yng Nghymru yn 2005.

Yn ddiweddarach, mae Mawle (2018) wedi amcangyfrif bod pysgota mewn afonydd yng Nghymru yn cyfrif am £20 miliwn o werth ychwanegol gros (incwm yr aelwyd amcangyfrifedig) ac yn cynnal dros 700 swydd lawn amser. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wedi cyhoeddi tystiolaeth fod yr holl bysgota dŵr croyw yn Lloegr yn 2015 wedi cyfrannu £1.46 biliwn at yr economi, gan gynnal 26,000 o swyddi (https://www.gov.uk/government/publications/a-survey-of-freshwater-angling-in-england).

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswyddau statudol i 'Gynnal, Gwella a Datblygu' pysgodfeydd Cymru (Deddf yr Amgylchedd 2006). Mae sefydliadau rhagflaenol a oedd yn meddu ar ragor o adnoddau, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop a staff marchnata arbenigol, wedi ystyried bod y dyletswyddau hyn yn cwmpasu rôl glir iddynt hyrwyddo pysgodfeydd Cymru mewn modd rhagweithiol.

**Pryderon rhanddeiliaid**

Mae cyllidebau sy'n mynd yn llai ynghyd â cholli arbenigedd (gan gynnwys Swyddog Marchnata Pysgodfeydd neilltuedig) wedi golygu na fu gan Lywodraeth Cymru y capasiti yn y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo pysgodfeydd Cymru. Mae hyn wedi arwain at randdeiliaid yn pryderu ynghylch diffyg gweithredu ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd yn ei dro wedi arwain at gais i'n cadeirydd ein bod unwaith eto yn sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i hyrwyddo pysgodfeydd Cymru, a'n bod ni'n gwneud hyn mewn partneriaeth â sefydliadau megis Angling Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genweirio ac Afonydd Cymru.

Roedd y prif bryderon a leisiwyd yn canolbwyntio ar ddiffyg gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael ei darparu ar gyfer ymwelwyr ar wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru a Croeso Cymru, yn ogystal â deunyddiau hyrwyddo cyfredol megis yr e-gylchgrawn pysgota chwarterol a oedd yn cael ei gynhyrchu o dan brosiect Pysgota Gwyllt Cymru, a chylchgrawn Pysgota Cymru a oedd wrth wraidd ymgyrch farchnata lwyddiannus Pysgota Cymru a gafodd ei rhedeg gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

**Yr her ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ym mis Mawrth 2018, gwnaeth y Dr David Collins, Is-gadeirydd Cymdeithas Enweirio Gwent, gan gynrychioli Angling Cymru a chyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genweirio, anfon e-bost at Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, gan amlinellu eu pryderon ynghylch y diffyg gweithredu, ac argymell ffordd ar gyfer symud ymlaen.

Roedd y prif heriau fel a ganlyn:

- Mae angen hyrwyddo pysgodfeydd mewndirol Cymru mewn modd sy'n broffesiynol, yn strwythuredig, yn wybodus ac yn addysgiadol, a hefyd mewn ffordd sy'n gynaliadwy.
- Rhaid i'r gwaith o hyrwyddo genweirio fod yn gydraddol â hyrwyddo gweithgareddau awyr agored eraill, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae angen i'r gwaith o'i hyrwyddo ysbrydoli pobl a gwneud iddynt ddymuno dod i Gymru, ac wedyn dweud wrth eu ffrindiau am eu profiad, a dod yn ôl unwaith eto.
- Mae angen hyrwyddo pysgodfeydd mewndirol Cymru unwaith yn rhagor fel cyrchfan arwyddocaol ar gyfer genweirwyr
  o'r DU ac o dramor.
- Mae angen defnyddio dull mwy cyfannol ar gyfer hyrwyddo, sy'n cynnwys genweirwyr, i sicrhau bod y wybodaeth orau ar gael drwy'r platfformau a ddarperir gan wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru a Croeso Cymru, a bod mecanwaith yn cael ei roi ar waith i wneud yn sicr bod hyn yn digwydd.

**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru**

Gwnaeth Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y pryd, Diane McCrae, ymateb i Dr Collins ar 30 Mawrth, gan ddweud:

"Hoffwn dderbyn yr her amlwg rydych wedi'i gosod – i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda grŵp o bartneriaid y mae pob un ohonynt yn gallu cyfrannu rhywbeth at yr her o wneud pysgota’n fwy ar gael a deniadol. Yn y lle cyntaf, hoffwn gynnal gyfarfod cwmpasu gyda chi, ac rwy'n eich gwahodd i gysylltu â Peter Gough i drefnu hyn."

Nid yw safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru wedi newid yn hyn o beth, er i'r cadeirydd ymddiswyddo nes ymlaen.

**Beth sydd wedi digwydd ers mis Mawrth?**

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Mehefin 2018 a oedd yn cynnwys yr holl bartïon â diddordeb, gyda'r nod o gytuno ar ffordd o symud ymlaen. Cytunwyd ar sawl cam gweithredu allweddol, gan gynnwys sefydlu grŵp llywio a gwneud cais am gyllid i ariannu gwaith yn y dyfodol.

Cynhaliodd y grŵp llywio ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi gyda chynrychiolwyr o Angling Cymru (gan gynnwys Dr Collins), yr Ymddiriedolaeth Genweirio, Cyfoeth Naturiol Cymru, Croeso Cymru, Marchnata Cymru, Pysgodfeydd Mewndirol a Morol Llywodraeth Cymru, a Chwaraeon Cymru. Cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu allweddol yn y cyfarfod hwn sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd, er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn, oherwydd blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a newid sefydliadol parhaus, fod y cynnydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn arafach na'r gobaith.

**Y camau nesaf**

Y brif flaenoriaeth yn y tymor byr yw gwella'r deunyddiau ar y we, gan gynnwys deunyddiau Cyfoeth Naturiol Cymru a Croeso Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio pobl at wefannau priodol eraill sy'n cynnwys deunyddiau hyrwyddo perthnasol megis am leoedd i bysgota yng Nghymru (gwefannau Angling Cymru, yr Ymddiriedaeth Genweirio a Physgota yng Nghymru).

Yn ddibynnol ar adnoddau, y flaenoriaeth nesaf yw creu deunyddiau hyrwyddo o ansawdd uchel ar

ffurf copi caled/electronig o gylchgrawn Pysgota Cymru ac e-gylchgronau rheolaidd (ddwywaith y flwyddyn neu'n chwarterol) y gellir eu postio i unigolion neu eu gwneud ar gael i'w lawrlwytho ar y we. Fel y nodwyd, mae e-gylchgrawn Pysgota Cymru wedi bod yn boblogaidd iawn yn y gorffennol a chafodd ei gydnabod am safon uchel ei erthyglau. Cydnabyddir

nad oes llawer o gyfle nac awydd ar hyn o bryd i hyrwyddo genweirio am rywogaethau mudol bregus. Yn hytrach, canolbwyntir ar frithyllod nad ydynt yn dilyn llwybrau mudo, pysgod bras a rhywogaethau priodol o bysgod morol.

Bydd y grŵp llywio yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn y dyfodol i wirio'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau ac i gydlynu ceisiadau am gyllid. Bydd rolau'r gwahanol bartneriaid sy'n chwarae rhan yn cael eu hegluro ymhellach er mwyn i bob parti ddefnyddio ei gryfderau.

Bydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru, yn ogystal â grwpiau pysgodfeydd lleol, yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, ac mae'n bosibl y gofynnir iddynt ddarparu cyngor lle bo hynny'n briodol.